Magnet

Cysyniadau:	**Amynedd, cydweithio, cryfder, helpu eraill, penderfyniad.**
Amcan:	**Dangos fel mae ymdrech un dyn wedi rhoi gobaith i ardal gyfan.**
Cyfarpar:	**Pinnau, darn o bapur, darn o gardfwrdd, magnet.**

Cyflwyniad:

● Dangos pin a darn o bapur i'r plant. Rhoi'r pin ar y papur ac yna'n raddol ei droi â'i wyneb i waered. Peidio dangos y magnet neu'r tynfaen.

● Ond yn ddiarwybod i'r plant dal y magnet yng nghledr eich llaw a bydd y pin yn aros ar y darn papur. Holi'r plant sut mae hyn wedi digwydd.

● Datgelu'r gyfrinach. Rhoi mwy o binnau ar y darn papur a gwneud yr un peth. Rhoi pinnau ar gerdyn a gweld a fydd y magnet yn eu dal.

● Dangos fel mae'r magnet yn tynnu pethau ato. Mae'r gair Cymraeg 'tynfaen' yn cyfleu hyn. Gellir, os ydi'r magnet yn ddigon cryf, roi'r magnet ar gefn y llaw a rhoi'r pin ar gledr y llaw.

Stori:

Faint ohonoch chi sydd wedi bod yn yr Alban? Ar pa berwyl? I weld gêm rygbi neu ar wyliau?

Heddiw mae gennym stori am ddyn o Govan, ardal yn Glasgow, y ddinas fwyaf yn yr Alban. Yn y ddinas hon y ganed Andrew (Andy) Murray, neu Syr erbyn hyn, y chwaraewr tennis, ac yn Govan y ganed

Alex Ferguson, cyn reolwr Man Utd. Ond mae'r stori heddiw yn sôn am George Macleod a aned yn Glasgow yn y flwyddyn 1895.

Gweinidog ar eglwys yn Govan oedd George Macleod. Roedd ardal Govan bryd hynny yn ardal dlawd iawn, iawn. Byddai'r plant yn rhedeg ar hyd y strydoedd yn hanner noeth. Roedd bwyd yn brin. Gofynnai George Macleod iddo'i hun yn aml, 'Sut y galla i bregethu a sôn am Iesu Grist wrth y bobl yma a hwythau eisiau bwyd? Sut y galla i bregethu i'r bobl yma nad oes ganddyn nhw ddim byd o gwbl?'

Dyma stori un fam o Govan:

> *'Rydw i wedi priodi ers deuddeng mlynedd a dim ond am flwyddyn y mae fy ngŵr wedi gweithio yn ystod y cyfnod hwn. Does yna ddim cyflog yn dod i'r tŷ ac mae'n rhaid i mi drwsio dillad y plant dro ar ôl tro. Mae gan yr hogyn hynaf wyth clwt ar ei drowsus. Rydw i wedi dweud wrtho y bydd o'n gynnes yn ystod y gaeaf! Rydw i newydd dynnu llawes oddi ar hen grys i'r gŵr a'i rhoi ar grys arall iddo fo. Pan fydd dillad wedi mynd yn rhy garpiog i'w gwisgo mi fyddaf yn gwneud matiau rhacs efo nhw. Ond, er gwaetha'r cyfan, rwy'n dal i obeithio y caiff fy ngŵr waith yn fuan ac y bydd pethau'n gwella.'*

Penderfynodd George Macleod arbrofi i weld a oedd modd dysgu'r bobl i fyw bywyd llawen a llawn, ac i gysylltu gwaith â bywyd bob dydd. Aeth drosodd gyda nifer o ddynion eraill o Govan i ynys fechan ar arfordir gorllewinol yr Alban a chymryd meddiant o'r hen abaty oedd yno. Abaty Sant Columba oedd hwn – y sant a ddaeth â'r hanes am Iesu Grist drosodd o Iwerddon i'r Alban. Roedd hynny yn bell, bell yn ôl yn y flwyddyn Oed Crist 563, a bu abaty ar Ynys Iona am ganrifoedd ar ôl hynny.

Ond bellach dim ond adfeilion oedd ar ôl. Lle bu Sant Columba yn adrodd y pader ac yn llafarganu ei weddïau doedd yno bellach ond pentyrrau o gerrig a drain a mieri. Ac i'r lle hwn y daeth George Macleod a'i gyfeillion yn 1938 i ailadeiladu'r hen fynachlog ac i gychwyn cymdeithas yno, cymdeithas o bobl yn cydweithio a chydweddïo.

Daeth llawer o bobl Govan yno i helpu gyda'r gwaith a daeth gobaith newydd iddyn nhw. Daeth llawer i weld pwrpas newydd i fywyd ac fe ddiflannodd y tristwch a'r anobaith. Byddai pobl Govan yn dod i'r Ynys i dreulio amser efo'i gilydd ac yna'n dychwelyd adref at eu teuluoedd. Byddai'r cyfnod ar Ynys Iona yn rhoi ysbrydoliaeth newydd iddyn nhw ac yn dangos bod bywyd yn werth ei fyw.

Trafodaeth bellach:

● Sut ddyn oedd George Macleod? Fyddech chi'n dweud bod ganddo weledigaeth?

● Beth oedd pwrpas dod ynghyd i Ynys Iona?

● Beth oedd profiad ar yr Ynys yn ei roi iddyn nhw ar ôl dychwelyd i Govan?

● Dyma'r magnet unwaith eto. Sylwch beth mae'n wneud y tro hwn.

● Dangos dylanwad y magnet ar y pinnau. Mae'r pinnau yn dal wrth ei gilydd – mae'n effeithio ar y pinnau eraill. Mae'r pinnau yn ymddwyn yn union fel y magnet. (Bydd angen gadael y pinnau ar y magnet dros nos i wneud yr arbrawf hwn.)

Emyn: Ffŵl dros Grist: Canu Clod 181

Dyfyniad o'r Beibl:

Dywedodd Iesu Grist:

" ... fe dynnaf bawb ataf fy hun." Ioan 12:32 BCND

Munud i feddwl:

Hoffwn petai fy mywyd yn fagnet enfawr i wneud ffrindiau efo pawb.

Myfyrdod/Gweddi:

Diolch i ti, O Dduw, dy fod di'n awyddus i ni ddod at ein gilydd, i gydweithio ac i wneud byd gwell. Amen.